



Adroddiad Ymgynghoriad Cymunedol Cae Peldroed Talybont

Cefndir

Gofynnodd Cyngor Cymuned Llanllechid i Bartneriaeth Ogwen gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu'r cae peldroed ym mhentref Talybont. Mae'r cae ym mherchnogaeth Cyngor Cymuned Llanllechid a teimlad cyffredinol y cynghorwyr oedd fod angen gwella'r adnodd er budd trigolion y pentref. I'r perwyl hwnnw, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yng nghapel Bethlehem ar y 19eg o Chwefror ble mynychodd 28 o drigolion yr ardal a dosbarthwyd holiaduron ar-lein a holiaduron papur i holl gartrefi'r pentref. Llenwyd yr holiaduron gan 34 o unigolion sy'n rhoi cyfradd ymateb o tua 20% o'r boblogaeth. Mae'r adroddiad isod yn crynhoi prif ganfyddiadau'r ymgynghoriad ac yn gosod cyfeiriad ar gyfer y Cyngor a'r grwp cymunedol fydd yn arwain y gwaith datblygol yn y dyfodol.

Cyfarfod Cyhoeddus

Yn dilyn ymgyrch farchnata, llythyru o ddrws i ddrws a hyrwyddo arlein, daeth 28 o drigolion lleol at ei gilydd i gynnal gweithdy ymgynghorol ar ddatblygu cae peldroed Talybont. Roedd 10 o'r mynychwyr yn blant rhwng 11 a 18 oed a'r gweddill yn drigolion lleol o'r pentref yn bennaf ac un neu ddau o Lanllechid. Roedd yn braf gweld diddordeb y plant a chael trafod y cae peldroed gyda defnyddwyr ifanc.

Yn ystod y noson, gofynnwyd tri chwestiwn –

- i) Beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio'r cae pel droed ar hyn o bryd?
- ii) Beth yw'r cyfleon i ddatblygu'r cae peldroed?
- iii) Beth allwch chi gyfrannu i ddatblygu'r cae peldroed tua'r dyfodol?

Rhwystrau

Nodwyd y canlynol fel rhwystrau oedd yn atal pobl rhag defnyddio'r cae peldroed ar hyn o bryd –

- i) GWAIR HIR - Y gwair yn rhy hir i'r plant allu chwarae peldroed a rhy hir i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phramiau.
- ii) PELDROED - Y cae yn rhy fach i gem beldroed 11 bob ochr a rhy fawr i gemau 5 bob ochr a'r goliau y maint anghywir.
- iii) GOLEUO – Nid oes unrhyw oleuo sy'n gwneud y lle'n anniogel gyda'r hwyr.
- iv) HYGRCHEDD A MYNEDIAD I BAWB – Y giat fynediad yn rhy gul i gadeiriau olwyn a phramiau.
- v) CYSGOD – Nid oes unrhyw adeilad neu strwythur i gysgodi ynddo rhag y tywydd.

Cyfleon

Cafwyd trafodaeth fywiog am y potensial i ddatblygu'r cae peldroed gyda nifer fawr o syniadau yn cynnwys creu cae 'bob tywydd' i chwarae peldroed a pelrwyd/pelfasged a chwaraeon eraill; prynu 'container' mawr i gadw offer chwaraeon, cael mwy o finiau i atal sbwriel, creu gofodau gwyrdd yn cynnwys perllan gymunedol, creu cysgod rhag y tywydd a hyd yn oed ganolfan gymunedol i fod yn ganolbwynt i'r gymuned. Cynigwyd creu grwp fyddai'n dod a phobl ifanc a phlant at ei gilydd i wneud defnydd o'r adnodd yn y dyfodol a pwysleiswyd yr angen am greu gofod oedd yn addas ar gyfer merched a hogiau. Ar ddiwedd y sesiwn, gofynwyd wrth y grwp geisio blaenoriaethu'r cyfleon datblygol hyn a gellir nodi'r blaenoriaethau canlynol:

- i) Blaenoriaeth uchel i greu adnodd i blant a phobl ifanc LLEOL. Nid creu adnodd i ddenu twristiaid neu ymwelwyr o tu allan i'r ardal yw'r nod ond creu adnodd cymunedol er budd y plant a phobl ifanc yn bennaf.
- ii) Creu cae bob tywydd aml ddefnydd (multi use artificial pitch) yn cynnwys cae peldroed 5 bob ochr, pelrwyd a phelfasged.
- iii) Creu adeilad fyddai'n gallu cael ei ddefnyddio fel cysgod ac fel gofod cymunedol i'r gymuned.
- iv) Croesawyd y syniadau am greu gofodau gwyrdd, bioamrywiaeth a pherllan gymunedol ar gyrion y cae ond fod blaenoriaeth yn cael ei roi i ddefnydd chwaraeon i'r plant.


Cyfranogi

Rhoddodd 10 unigolyn eu enwau ymlaen i helpu i ddatblygu'r prosiect yn y dyfodol. Roedd nifer fawr yn frwd i wirfoddoloi yn ymarferol hefyd trwy e.e. helpu i glirio drain, codi arian, paentio meinciau neu gynnig sgiliau penodol i gynorthwyo'r prosiect. Roedd rhai o'r plant yn fodlon gwirfoddoli ar ol ysgol neu ar benwythnosau i ddatblygu'r gofod.

Holiaduron

Atodir copi o'r holiadur cymunedol a nodir isod y prif ganfyddiadau dan bennawd pob cwestiwn. O ran dosbarthiad oedran yr ymatebwyr, dylid nodi fod $\frac{3}{4}$ yr ymatebwyr rhwng 31 a 60 oed gyda mwyafrif y ganran honno yn rieni. Roedd 69% o'r ymatebwyr yn defnyddio neu wedi defnyddio'r cae peldroed yn y gorffennol. O ran amllder defnydd roedd 35% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r cae yn aml a'r un ganran yn defnyddio'r cae yn 'anaml'. Roedd y gweddill o'r ymatebwyr yn ddefnyddwyr achlysurol.

Ym mha grwp oedran ydych chi? / In what age group are you?



Rhwystrau

Y prif rwystrau oedd yn atal pobl rhag defnyddio'r cae ar hyn o bryd oedd y ffaith fod y gwair yn rhy uchel ac yn aml yn wlyb. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n amhosib i chwarae ac yn amhosib o ran mynediad i'r anabl. Nododd rhai fod y ffaith mai cae peldroed yn unig oedd ar gael ar hyn o bryd yn rhwystr rhag annog defnydd gan ferched ac unigolion nad oeddent am chwarae peldroed. Nodwyd hefyd fod angen edrych ar y problemau goleuo er mwyn cynyddu defnydd yn ystod misoedd y gaeaf.

Datblygu'r cae peldroed


Gofynnwyd i'r ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn canlynol trwy gynnig ystod o opsiynau.

“Mae gofod y cae peldroed yn fawr iawn. O ddefnyddio'r gofod yn well, pa adnoddau hoffech chi eu gweld?”

Chwaraeon – Y defnydd mwyaf poblogaidd oedd datblygu opsiynau chwaraeon (peldroed, pelfasged a thrac rhedeg) yn cynrychioli 60% o'r sampl. Allan o'r opsiynau chwaraeon, datblygu cae peldroed 5 bob ochr oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd (28%).

Gofod Gwyrdd - Roedd 20% o'r sampl am weld meinciau a byrddau picnic yn cael eu gosod yno ac 20% arall a weld datblygiad o'r gofod gwyrdd ar gyfer sefydlu perllan gymunedol, rhandiroedd neu hafan bywyd gwyllt a bioamrywiaeth.


Mae gofod y cae peldroed yn fawr iawn. O ddefnyddio'r gofod yn well, pa adnoddau hoffech chi eu gweld? / The football field is a large space. If we maximised the use of the space, which facilities would you like develop?



Cyfranogi

Roedd 66% o'r ymatebwyr yn barod i helpu i ddatblygu'r cae peldroed fel adnodd cymunedol yn y dyfodol.

Bydd angen gwirfoddolwyr i ddod at ei gilydd i ddatblygu'r cae peldroed. A fydddech chi'n fodlon helpu? / We will need volunteers to come together to develop the football field.
Can you help?



Sylwadau Pellach

Cafwyd ystod eang o sylwadau ychwanegol. Nodwyd gan nifer fod y gofod yn fawr a bod potensial sylweddol i ddatblygu'r gofod fel mwy na chae peldroed yn unig. Byddai tynnu'r ffocws oddi ar beldroed yn annog mwy o ferched a thrawstoriad ehangach o ddefnyddwyr i ddefnyddio'r cae. Roedd un ymatebwr yn daer ei farn fod angen cadw'r gofod fel adnodd cymunedol yn hytrach na'i droi yn gartrefi neu'n faes parcio. Nododd fwy nag un ymatebwr yr angen am greu ffocws cymunedol i'r pentref trwy greu adeilad cymunedol fyddai'n gweithredu fel canolfan gymunedol, neu siop. Cynigodd un ymatebwr hefyd fod cyfle i adleoli offer y cae chwarae i fewn i'r datlbygiad newydd gan ryddhau tir y cae chwarae i fod yn faes parcio i gartrefi Cae Gwgin.

Casgliadau

Cyfranogiad

O ystyried yr ymatebion yn yr holiaduron a'r ymateb yn ystod y cyfarfod cyhoeddus gallwn yn sicr nodi fod awydd a diddordeb i weld y cae peldroed yn cael ei ddatblygu yn Nhalybont a bod nifer o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad eisiau cyfrannu i'r broses honno. Mae hyn yn arwyddocaol ac yn dangos ymgysylltiad cymunedol llwyddiannus ar ran y cyngor ac awydd o blith y gymuned i gymryd perchnogaeth o'r prosiect. Mae'r diddordeb o blith yr ifanc hefyd i'w groesawu a mae angen sicrhau eu bod yn parhau i gael mewnbwn i'r prosiect yn y dyfodol.

Blaenoriaethau

O ran blaenoriaethau datblygol, dylid yn sicr roi blaenoriaeth i'r syniad o greu cael chwarae aml bwrpas a phob tywydd. Mae'n holl bwysig fod yr adnoddau chwaraeon newydd yn agored i bawb a bod cyfle i ferched a bechgyn yn gyfartal. Mae'r syniad o gae bob tywydd aml bwrppas y gellid cynnal gemau 5 bob ochr, pelrwyd/pelfasged a thrac rhedeg yn un y dylid ymchwilio ymhellach iddo.

Roedd angen sicrhau fod yr adnoddau'n hygyrch i bawb a bod angen cynnal a chadw'r cae yn llawer gwell, yn arbennig o ran torri'r gwair yn aml gan fod hynny'n rwystr amlwg oedd yn atal pobl rhag ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

Roedd greu adnodd cymunedol fyddai'n galon i'r gymuned hefyd yn flaenoriaeth i nifer a dylid ymchwilio ymhellach i'r posibiladau o ran greu cysgodfan neu adeilad o fewn y cae. .

O ran cynulleidfa darged, darparu cyfleusterau ar gyfer plant y pentref oedd y flaenoriaeth amlwg gan wneud yn siwr fod yr adnodd yn ddeniadol, yn hygyrch ac yn cael ei ddefnyddio.

Argymhellion

Argymhellwn fod –

- Y Cyngor yn derbyn cynnwys yr adroddiad hwn ar sail yr ymgynghoriad cymunedol.
- Fod gweithgor cymunedol yn cael ei sefydlu yn cynnwys yr unigolion brwd sydd eisoes wedi rhoi eu henwau ymlaen i gynorthwyo gyda'r prosiect.
- Y Cyngor yn ymrwmo i gydweithio â'r grwp cymunedol i ddatblygu'r gofod yn unol â chanfyddiadau'r adroddiad hwn gan barhau i drafod unrhyw gynlluniau gyda'r gymuned.

MD 05/04/2019